

Arlunio pentwr o ddillad

Heddiw, rydyn ni'n mynd i fod yn arlunio pentwr o ddillad gan ddefnyddio pensil ac eraser.



'Still life' yw'r term ar y math hwn o gelf. Efallai eich bod wedi gwneud 'Still life' o'r blaen, er enghraifft arlunio ffrwythau mewn powlen, blodau neu esgid. Mae 'Still Life' yn bwnc mawr yn hanes celf. Tybed a oes rhai ohonoch yn gallu meddwl am artistiaid sydd wedi creu darluniau neu



baentiadau o 'Still Life'? Un sy'n dod i fy meddwl i yw Paul Cezanne a greodd baentiadau hyfryd o ffrwythau.

Gwen John, yr artist o Gymru, yw un arall a wnaeth baentiadau tyner a meddylgar o lestri fel potiau te ar ford mewn ystafell.



Pwrpas y gweithdy hwn yw i chi ddysgu sut i sylwi'n ofalus ar rywbeth ac ystyried sut mae golau a chysgod yn ymddwyn ar wahanol arwynebau.

Cam 1

Y peth cyntaf wy mo'yn i chi wneud yw dewis dillad i'w cynnwys yn y pentwr rydych chi'n mynd i arlunio. Ystyriwch y defnydd, a gwead y dillad. Does dim wir ots am liw y dillad ond mae'n dda dewis dillad sydd â gwead (texture) gwahanol.



Wy wedi dewis 'dressing gown', crys-t, trwsus a 'hoodie'.

Cam 2

Dewiswch leoliad addas i arlunio. Gall hyn fod yn eich cartref neu yn yr awyr agored.



Gan ei fod yn wlyb tu fas, wy wedi penderfynu gwneud fy narlun i dan do yng nghonservatory fy mam-gu.

Cam 3

Rhowch eich pentwr o ddillad mewn lle a ffordd sy'n ddiddorol ac yn gyfforddus i chi arlunio.



Tybed a oes rhai ohonoch wedi gweld astudiaethau Leonardo da Vinci o draperies?



Darluniau o ddefnydd yn gorffwys ar ffigurau yw'r rhain. Wy'n meddwl eu bod yn anhygoel. Mae gwrthgyferbyniad diddorol rhwng y manylder mewn manau a'r rhyddid mewn

mannau eraill. Rwy'n eich annog i edrych ar y darnau hyn cyn dechrau arlunio er mwyn i chi gael ysbrydoliaeth.

Baswn i hefyd yn eich annog i edrych ar gerfluniau Michelangelo, yn enwedig ei gerflun 'Pieta'.



Sylwch ar wisg Mair yn y darn, yn enwedig y crychau yn y dillad. Mae'n anhwygoel meddwl mai dim ond 25 oedd Michelangelo pan greodd y cerflun!

Cam 4

Cyn i chi arlunio, edrychwch ar eich pentwr o ddillad. Sylwch ar y crychau yn y dillad, y ffordd mae golau'n creu cysgodau cryf ac ysgafn ar y dillad.



Cam 5

Wy'n mo'yn i chi arlunio â phensil. Un rheswm am hyn yw i chi weld posibiliadau defnyddio un lliw a chyfrwng yn unig.



Nawr, efallai y cewch chi ychydig o ofn yn meddwl am y dasg oherwydd pa mor gymhleth yw golwg y dillad. Mae hyn yn ddealladwy. Yn sicr wy'n teimlo bach yn nerfus ynglŷn ag arlunio dillad! Mae angen mwy o ymdrech meddwl efallai o gymharu ag arlunio afal. Y peth pwysig yw edrych yn fanwl ar y dillad. Edrych ar ble mae un crych mewn perthynas â

chrych arall. Beth sy'n gwneud y pentwr o ddillad yn bentwr o ddillad ac nid carreg er enghraifft? Mae angen amynedd yn y dasg hon.

Cam 6

Mae gennych chi ryddid o ran sut i arlunio. Gallwch chi greu darlun manwl iawn neu ddarn haniaethol (abstract) sy'n cynrychioli'r pentwr o ddillad. Chi yw'r artist ac mae gennych chi lais creadigol eich hunan. Yr unig reol yw eich bod yn defnyddio pensil. Wy wedi penderfynu creu darlun manwl o'r pentwr o ddillad oherwydd wy'n mo'yn astudio'r dillad – eu nodweddion ayb.

Cam 7

Wy'n mynd i ddechrau'r darlun trwy greu awgrym o'r pentwr o ddillad ar y papur, yn y lleoliad wy'n teimlo sydd orau. Mae hynny'n pwynt eithaf pwysig – mae lleoliad y dillad ar y papur yn effeithio ar yr holl ddarn. Mae'r gofod o amgylch y pentwr o ddillad ar y dudalen yn gallu bod yr un mor bwysig â'r darlun ei hunan. Mae maint eich darlun ar y papur yn bwysig hefyd.




Ar ôl creu awgrym o'r pentwr o dillad, wy nawr yn mynd i ddechrau rhoi manylder yn fy narlun ac rwy'n edrych yn ôl ac ymlaen at y dillad yn gyson.

Fe sylwch fod y golau'n newid yn aml. Mae hyn yn gwneud y dasg yn fwy heriol ond mae'n ymarfer da i'ch sgiliau edrych.

Cam 8

Defnyddiwch yr eraser i greu marciau golau yn eich darlun, trwy rwbio'r eraser mewn i fannau y'ch chi'n teimlo dylai gynnwys marciau goleuach.



Daliwch ati. Os y'ch chi'n ffeindio'r broses yn anodd, ewch i gael toriad a dewch yn ôl â llygaid ffres.

Cam 9

Pan y'ch chi'n teimlo bod eich darlun yn orffenedig, gallwch roi tipyn bach o 'hairspray' dros y darlun er mwyn gwneud yn siwr nad yw'n smudjio.

A dyna ddiwedd y gweithdy! Gobeithio eich bod wedi mwynhau. Rwy'n edrych ymlaen nawr at weld eich darluniau! 😊